# Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Dinasyddiaeth | Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddan nhw'n barod am agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddan nhw'n datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddyn nhw ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol. |
|---|---|

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Dinasyddiaeth | **Hunaniaeth, delwedd ac enw da** | | Rwy'n gallu adnabod delweddau o bobl gyfarwydd. | Rwy'n gallu adnabod delwedd ohonof i fy hun. | Rwy'n gallu adnabod pobl sy'n bwysig i mi. |
| | | | | | Rwy'n gallu deall bod angen gwneud rhywbeth er mwyn imi allu defnyddio rhai dyfeisiau. |
| | **Iechyd a lles** | Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, bod yn well ganddo eitemau nad ydyn nhw'n bresennol *[ADD 41]* | Rwy'n gallu dangos diddordeb mewn cyfryngau digidol. | Rwy'n gallu gwneud dewis wrth ddefnyddio cyfryngau digidol. | Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o gyfryngau digidol. |
| | **Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth** | | Rwy'n gallu ymateb yn wahanol i ddelweddau o bobl gyfarwydd a phobl anghyfarwydd. | Rwy'n gallu dod o hyd i ffotograff/symbol/arwydd/enw ar fy nghyfer i a phobl gyfarwydd eraill. | Rwy'n gallu adnabod fy enw i ar fy ngwaith fy hun ac fy enw i ar waith pobl eraill. |
| | **Ymddygiad ar-lein a bwlio ar-lein** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu talu sylw i ddelweddau sy'n symud ar-lein. | Rwy'n gallu canolbwyntio ar ddelweddau sydd o ddiddordeb i mi ar-lein. | Rwy'n gallu rhyngweithio ag eraill ar-lein. |
| | | Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, bod yn well ganddo eitemau nad ydyn nhw'n bresennol *[ADD 41]* | | Rwy'n gallu tynnu sylw oedolyn at rywbeth/rhywun ar-lein. | Rwy'n gallu adnabod fy emosiynau fy hun ar sgrîn a dynodi hynny i oedolyn. |
| | | | | Rwy'n gallu cyfleu, ar lefel syml, beth ydw i'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi. | Rwy'n gallu cyfleu 'na', 'ie', 'hoffi' a 'ddim yn hoffi' i oedolyn sylwgar. |
| | | | | | Rwy'n gallu ymateb yn gadarnhaol i adborth am fy rhyngweithio ag eraill. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43791 ISBN digidol 978 1 80391 407 7

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Rhyngweithio a chydweithio | Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn edrych ar ddulliau cyfathrebu electronig ac yn gwybod pa rai sydd fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr hefyd yn storio data ac yn defnyddio technegau cydweithio yn llwyddiannus. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinyn** | **Elfen** | **Map llwybrau ADD** | **Camau A** | **Camau B** | **Camau C** |
| Rhyngweithio a chydweithio | **Cyfathrebu** | Cyfleu dewis i oedolyn sylwgar *[ADD 37]*<br>Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, bod yn well ganddo eitemau nad ydyn nhw'n bresennol *[ADD 41]* | Rwy'n gallu cyfleu fy newisiadau drwy ddefnyddio dyfeisiau digidol, *e.e. pwyntio â fy llygaid, switshys, ac ati.* | Rwy'n gallu cyfleu fy newisiadau drwy wahanol fathau o ddyfeisiau digidol a meddalwedd. | Rwy'n gallu defnyddio gwahanol ddulliau o gyfathrebu digidol. |
| | **Cydweithredu** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu troi fy sylw rhwng oedolyn sylwgar a chyfrwng digidol, *e.e. switsh, gyfrifiadur llechen*. | Rwy'n gallu cymryd rhan yn yr un weithgaredd ddigidol â chyfoed, ochr yn ochr ag ef. | Rwy'n gallu cwblhau gweithgaredd ddigidol ochr yn ochr ag eraill a bod yn ymwybodol o effaith eu mewnbwn. |
| | **Cyfnewid a rhannu gwybodaeth** | | Rwy'n gallu cyfrannu at greu gwaith i'w rannu drwy gyfrwng digidol. | Rwy'n gallu cyfrannu at adolygu gwaith a rennir ar gyfrwng digidol. | Rwy'n gallu adnabod gwaith digidol o sesiwn flaenorol.<br>Rwy'n gallu cadw fy ngwaith, â chymorth oedolyn, ar lwyfannau digidol. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43791 ISBN digidol 978 1 80391 407 7

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Cynhyrchu | Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses cylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath. Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol. |
|---|---|

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchu | Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol | Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau *[ADD 36]* | Rwy'n gallu arwyddo hoffter o un peth dros rywbeth arall mewn tasg ddigidol. | Rwy'n gallu cwblhau tasg ddigidol, gan ddilyn cyfres fer o gamau. | Rwy'n gallu dewis yr hyn sydd ei angen er mwyn cwblhau tasg ddigidol o blith opsiynau a ddarperir. |
| | | | | Rwy'n gallu defnyddio eicon ar y sgrîn i agor ap neu wefan benodol. | Rwy'n gallu mynd drwy gyfres o eiconau/delweddau i ddod o hyd i eitem benodol. |
| | Creu cynnwys digidol | Dangos arwyddion cynnar o ddatrys problemau – rhoi cynnig ar strategaeth newydd pan yw'r hen un yn methu *[ADD 42]* | Rwy'n gallu rhyngweithio â thechnoleg er mwyn creu delwedd, sŵn neu allbwn fideo. | Rwy'n gallu mynd ati'n fwriadol i greu delweddau, synau, allbwn fideo, llythrennau neu symbolau. | Rwy'n gallu creu cynnyrch at ddibenion gwahanol, gan ddefnyddio elfennau amlgyfrwng gwahanol, gan gynnwys delweddau, synau, allbwn fideo, llythrennau, symbolau neu animeiddiad. |
| | | Cychwyn strategaethau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir mewn amryw o gyd-destunau (arfer ymreolaeth) *[ADD 43]* | Rwy'n gallu dangos hoffter o wahanol elfennau amlgyfrwng dros rai eraill, gan gynnwys delwedd, sŵn a fideo. | Rwy'n gallu dewis yr elfennau amlgyfrwng sydd orau gennyf i o blith dewis cyfyngedig o ddelweddau, synau a fideos. | |
| | Gwerthuso a gwella cynnwys digidol | | | Rwy'n gallu dangos pleser/anfodlonrwydd wrth edrych ar fy ngwaith fy hun. | Rwy'n gallu gwneud sylwadau ar fy ngwaith fy hun mewn ymateb i gwestiynau penodol. |
| | | | | | Rwy'n gallu newid fy ngwaith fy hun ar unwaith. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43791 ISBN digidol 978 1 80391 407 7

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Data a meddwl cyfrifiadurol | Mae meddwl cyfrifiadurol yn gyfuniad o ymholi gwyddonol, datrys problemau a sgiliau meddwl. Cyn i ddysgwyr allu defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys problem, rhaid iddyn nhw yn gyntaf ddeall y broblem a'r dulliau o'i datrys.<br>Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd llythrennedd gwybodaeth a data, a byddan nhw'n archwilio agweddau ar gasglu, cynrychioli a dadansoddi. Bydd dysgywr yn edrych ar sut mae data a gwybodaeth yn cysylltu i mewn i'n byd digidol a bydd yn rhoi iddyn nhw sgiliau hanfodol ar gyfer y gweithle modern, deinameg. |
|---|---|

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Data a meddwl cyfrifiadurol | Datrys problemau a modelu | Dangos arwyddion cynnar o ddatrys problemau – rhoi cynnig ar strategaeth newydd pan yw'r hen un yn methu *[ADD 42]* | Rwy'n gallu copïo rhywun arall, gan ddangos dechrau a diwedd y weithred. | Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth gynyddol o gyfresi dilyniant a phatrymau (o hyd at 5) a ategir gan eiriau/symbolau/arwyddion. | Rwy'n gallu copïo cyfresi dilyniant a phatrymau syml (o hyd at 10) a ategir gan eiriau/symbolau/arwyddion. |
| | | Cychwyn strategaethau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir mewn amryw o gyd-destunau (arfer ymreolaeth) *[ADD 43]* | Rwy'n gallu cofio ymatebion a ddysgwyd dros gyfnod estynedig o amser. | Rwy'n gallu dilyn cyfarwyddiadau un cam. | Rwy'n gallu dilyn cyfarwyddiadau dau gam. |
| | | | Rwy'n gallu defnyddio ystod o ddyfeisiau. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o ddyfeisiau i greu effaith benodol. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o ddyfeisiau at ddibenion gwahanol. |
| | Llythrennedd gwybodaeth a data | Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau *[ADD 36]* | Rwy'n gallu archwilio eitemau a gweld pa rai sy'n cyfateb, o ddewis o ddau, drwy gopïo oedolyn. | Rwy'n gallu adnabod gwrthrychau neu ddelweddau sydd union yr un fath â'i gilydd. | Rwy'n gallu adnabod eitemau sydd yn/nad ydyn nhw'n perthyn i set. |
| | | | | Rwy'n gallu deall bod modd i eitem gael ei chynrychioli mewn ffordd arall. | Rwy'n gallu grwpio gwrthrychau sy'n rhannu nodwedd benodol. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43791 ISBN digidol 978 1 80391 407 7